

Rhif Cyfeirnod: UHB 456  
Rhif Fersiwn: 1

Dyddiad Adolygiad Nesaf: 25/06/2022  
Rhif Cyfeirnod Ymddiriedaeth BILI  
Blaenorol: UHB 084

## POLISI IECHYD A LLES CYFLOGEION

### Datganiad Polisi

Mae BIP Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i fod yn 'Lle Gwych i Weithio a Dysgu'. Agwedd bwysig ar gyflawni hyn yw hyrwyddo a chynnal iechyd a lles ein staff.

Mae sefydliadau sy'n blaenoriaethu iechyd a lles cyflogeion wedi perfformio'n well, gyda boddhad uwch gan y cleifion, canlyniadau gwell, lefelau cadw staff uwch a lefelau salwch is. Mae'n hanfodol nad yw'r gweithle'n creu rhwystrau o ran gwneud dewisiadau iach, ond yn hytrach yn cefnogi ac yn eu hannog nhw a thrwy hyn yn datblygu ymhellach gweithlu mwy sgilgar a brwdfrydig sydd wedi ymgysylltu sy'n ceisio gwella gofal cleifion.

### Ymrwymiad Polisi

Mae'r BIP yn cydnabod bod ei gyflogeion yn hanfodol i'w lwyddiant ac wedi ymrwymo i'w hannog a'u grymuso nhw i gymryd cyfrifoldeb personol dros eu dewisiadau ffordd o fyw, iechyd a lles ac i roi arweiniad i reolwyr ar eu rolau a'u cyfrifoldebau. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn defnyddio sawl strategaeth, gan gynnwys:

- Alinio mentrau gyda blaenoriaethau iechyd y cyhoedd ehangach o ran cynyddu ymarfer corff, taclo gordewdra, lleihau ysmegu a goryfed, a gwella iechyd meddwl.
- Codi ymwybyddiaeth a rhoi arweiniad ar faterion yn ymwneud ag iechyd a lles.
- Cynnwys cyflogeion yn y broses o wneud penderfyniadau a datblygu diwylliant gweithio yn seiliedig ar bartneriaeth
- Trefnu tasgau a phrosesau gwaith fel y gallant gyfrannu at, yn hytrach na niweidio, iechyd a lles
- Gweithredu arferion da sy'n gwella iechyd cyflogeion drwy wneud y dewisiadau iachach yn haws
- Cydnabod bod sefydliadau'n cael effaith ar bobl nad yw bob tro'n dda i'w hiechyd a lles
- Lleihau nifer y risg yn y gweithle drwy beidio â goddef trais ac ymddygiad ymosodol
- Datblygu diwylliant lle rhoddir ffocws cyfartal ar iechyd meddwl a lles, ac sy'n herio'r

Teitl y Ddogfen: Polisi Iechyd A Lles Cyflogeion	1 o 2	Dyddiad Cymeradwyo: 09/06/19
Rhif Cyfeirnod: UHB 456		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25/06/22
Rhif Fersiwn: 1		Dyddiad Cyhoeddi: 9/0719
Cymeradwywyd Gan: Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni		

stigma sydd ynghlwm wrth amodau o'r fath.

- 
- Creu amgylchedd sy'n annog cyflogeion i fod â diddordeb yn eu hiechyd a lles, ac sy'n rhoi cyfleoedd a chymorth iddyn nhw i gymryd camau i'w wella
- Arddangos ein hymrwymiad i gynnal Safonau Iechyd Corfforaethol Aur a Phlatinwm
- Cynnig arweinyddiaeth cyson o'r top, gan sicrhau bod y sefydliad yn ymarferol yn cefnogi dull positif o ran iechyd a lles cyflogeion

### **Gweithdrefnau Ategol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig**

Mae'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau ategol yn disgrifio'r hyn a ganlyn:

- Rôl bwysig y BIP o ran gwella iechyd, diogelwch a lles cyflogeion
- 
- Y disgwyliad bod bob cyflogai'n gyfrifol am gynnal a gwella eu hiechyd a'u lles eu hunain
- Y farn fod trais rhywiol ac unrhyw fath arall o drais (gan gynnwys camdriniaeth emosiynol a chorfforol) yn hollol annerbyniol ac ni fyddant yn cael eu goddef, a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff sy'n cael profiad o gam-drin domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol.
- 
- Y cyngor a'r canllawiau a roddir i reolwyr a staff o ran adnabod ac ymdrin ag achosion o gam-drin domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol, a'r effaith y maent yn ei chael ar y gweithle.
- Gwybodaeth i gyflogeion a'u rheolwyr i'w galluogi nhw i gefnogi staff sydd â phroblem alcohol, cyffuriau a/neu sylwedd arall.
- Adnabod risgiau neu amgylchiadau posibl all gyfrannu at lefelau straen yn ymwneud â'r gwaith amhriodol a chynnal asesiadau risg i waredu neu reoli'r risgiau o straen o'r fath.
- 

Canllawiau ar y broses ar gyfer cyflwyno ac ystyried hawliad anaf diwydiannol

### **Dyma'r dogfennau ategol eraill:**

- Gweithdrefn Rheoli Camddefnyddio Alcohol, Cyffuriau a Sylweddau yn y Gwaith
- Gweithdrefn Rheoli Straen ac Iechyd Meddwl yn y Gwaith
- Gweithdrefn Hawliadau Anafiadau Diwydiannol
- Gweithdrefn Cam-drin Domestig

Teitl y Ddogfen: Polisi Iechyd A Lles Cyflogeion	1 o 2	Dyddiad Cymeradwyo: 09/06/19
Rhif Cyfeirnod: UHB 456		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25/06/22
Rhif Fersiwn: 1		Dyddiad Cyhoeddi: 9/0719
Cymeradwywyd Gan: Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni		

- Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith
- Y Weithdrefn Gweithio Hyblyg
- Proses Urddas yn y Gwaith
- Polisi a Gweithdrefn Gwyno
- Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol
- Gweithdrefn a Pholisi Disgyblu GIG Cymru
- Gweithdrefn Adleoli
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Codi a Chario Minimal
- Polisi Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol (Diogelwch Personol)
- Polisi Diwedd y Mislif
- Safonau Rheoli Straen yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

### Sgôp

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob aelod staff, deiliaid contractau anrhydedd a gwirfoddolwyr.

#### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd

Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd wedi'i gyflawni ar gyfer y polisi hwn a'r gweithdrefnau ategol a gwelwyd effaith bositif.

#### Cymeradwywyd y Polisi gan

Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni

#### Grŵp gydag awdurdod i gymeradwyo gweithdrefnau sydd wedi'u hysgrifennu i egluro sut fydd y polisi hwn yn cael ei weithredu

Is-grŵp Polisi Cyflogaeth

#### Cyfarwyddwr Gweithredol neu Fwrdd Clinigol sy'n Atebol

Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

### Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi pasio, sicrhewch fod y fersiwn yr ydych chi ei defnyddio yn gyfredol un ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethu.

Teitl y Ddogfen: Polisi Iechyd A Lles Cyflogeion	1 o 2	Dyddiad Cymeradwyo: 09/06/19
Rhif Cyfeirnod: UHB 456		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25/06/22
Rhif Fersiwn: 1		Dyddiad Cyhoeddi: 9/0719
Cymeradwywyd Gan: Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni		

<b>Crynodeb o'r adolygiadau/diwygiadau</b>			
<b>Rhif Fersiwn</b>	<b>Dyddiad y Cymeradwywyd yr Adolygiad</b>	<b>Dyddiad Cyhoeddi</b>	<b>Crynodeb o'r diwygiadau</b>
1	25/06/2019	09/07/2019	Polisi NEWYDD – disodli'r hen Strategaeth Iechyd a Lles yn y Gwaith (BIP 084)